Gwiwerod Coch Unedig SciuriousLIFE

Adroddiad Lleygwr 2017
LIFE14 NAT/UK/000467

Yn helpu i sicrhau dyfodol i'r wiwer goch yn y Deyrnas Unedig

©Katy Cook

Gwiwerod Coch UNEDIG Red Squirrels UNITED

Life

heritage treftadaeth

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Grey Squirrel ©Pixabay

Hanes y wiwer goch

Mae'r wiwer goch wedi byw mewn coedwigoedd a choetiroedd ledled y DU ers diwedd yr oes iâ ddiwethaf, 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Gostyngodd eu niferoedd yn sylweddol yn ystod y ganrif ddiwethaf ac erbyn hyn tua 140,000 sydd ar ôl yn y gwyllt. Daethpwyd â gwiwerod llwyd i'r DU yn y 1800au yn Oes Fictoria a'r cofnod cyntaf ohonynt yn dianc ac yn sefydlu poblogaeth wyllt oedd ym 1876. Ers hynny maent wedi lledu ledled y DU, gan gyrraedd Iwerddon ym 1911. Mae llawer o astudiaethau gwyddonol yn dangos mai cyflwyno'r wiwer lwyd o Ogledd America fu'r prif ffactor yn nirywiad y wiwer goch yn ystod y ganrif ddiwethaf. Mae hyn oherwydd cystadleuaeth am fwyd a chysgod a lledaeniad firws brech y wiwer (y gall gwiwerod llwyd ei drosglwyddo i wiwerod coch). Yn anffodus, heb reoli cadwraethol, gallai gwiwerod coch ddiflannu o dir mawr Ynysoedd Prydain.

Beth yw Gwiwerod Coch Unedig?

Mae sefydliadau, gwirfoddolwyr a chadwraethwyr eraill wedi bod yn rhan o waith cadwraeth lleol a phrosiectau i amddiffyn gwiwerod coch ers blynyddoedd lawer. Mae partneriaeth Red Squirrels United yn ymuno â rhai o'r mentrau hyn, ynghyd ag academyddion, ymarferwyr a gwirfoddolwyr i gyflawni rhaglen gadwraeth unigryw o warchod y wiwer goch a rhannu gwybodaeth ledled y wlad. Ffocws Gwiwerod Coch Unedig Unedig yw amddiffyn y poblogaethau gwiwerod coch sy'n weddill lle maent dan fygythiad gan wiwerod llwyd ymledol ledled Gogledd Iwerddon, Gogledd Lloegr a Chymru.

Red Squirrel ©Pixabay

Uchafbwyntiau Gwiwerod Coch Unedig 2017

Yn 2017 cafodd y rhaglen ei lansio o ddifrif:

• Mynychodd dros 90 o bobl y Ffair Wybodaeth gyntaf ym mis Mawrth 2017 ym Melfast
• Erbyn diwedd 2017 roedd dros 1,000 o ryngweithio gan wirfoddolwyr wedi digwydd. Cymerodd gwirfoddolwyr ran mewn gweithgaredd cadwraeth gwiwerod coch, rheoli gwiwerod llwyd, arolygon monitro gwiwerod coch a llwyd a digwyddiadau cysylltu â'r gymuned
• Cynhaliodd neu mynychodd Gwiwerod Coch Unedig bron i 300 o ddigwyddiadau cysylltu â'r gymuned, gan gyrraedd dros 20,000 o bobl
• Sefydlwyd systemau rhybuddio cynnar ac ymateb cyflym ar draws yr holl feysydd y canolbwyntir arnynt, gan alluogi partneriaid prosiect i ymateb yn gyflym i'r wiwerod coch a llwyd a welwyd neu achosion posibl o glefydau.

Ffair Wybodaeth Gwiwerod Coch Unedig

Cynhaliwyd y Ffair Wybodaeth flynyddol gyntaf ym Melfast rhwng 7-8 Mawrth 2017. Mynychwyd y digwyddiad deuddydd hwn gan 95 o bobl, gan gynnwys gwirfoddolwyr, ymarferwyr cadwraeth a chyfranogwyr eraill o bob rhan o'r DU ac Ewrop. Roedd y Ffair Wybodaeth yn gyfle gwych i rwydweithio a rhoddodd gyfle i bobl glywed mwy am Gwiwerod Coch Unedig. Yn ogystal, bu cynrychiolwyr yn archwilio gwersi a ddysgwyd o brosiectau cadwraeth gwiwerod coch Ewropeaidd, yn rhannu arfer gorau ar gyfer cadwraeth gwiwerod coch ac yn ymweld â Mynyddoedd Mourne i weld y gwaith mae Gwiwerod Coch Unedig yn ei wneud yn y maes hwn.

Atal goresgyniad gwiwerod llwyd ar Ynys Môn

Mae Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru yn parhau i reoli gwiwerod llwyd mewn ardal o 165km² yng Ngwynedd, fel rhan o'r ymdrech i atal goresgyniadau gwiwerod llwyd i Ynys Môn, yn dilyn eu clirio yn llwyddiannus yn 2013. Mae'r system rhybuddio cynnar a'r rhwydwaith ymateb cyflym wedi'i hen sefydlu ar Ynys Môn, ac yn ymateb yn gyflym i unrhyw wiwerod llwyd sy'n cael eu gweld. Canfuwyd dwy wiwer lwyd yn hydref 2017 a'u symud. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd y rhwydwaith rhybuddio cynnar. Mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, datblygodd Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru hefyd brotocol y cytunwyd arno pan fydd gwiwerod llwyd yn cael eu trapio ar ddamwain a'u cludo mewn cerbydau modur ar ddamwain.

Rheoli achosion o firws brech y wiwer

Yn ystod hydref 2017 darganfu Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru achos o firws gwiwerod mewn gwiwerod coch yng Ngwynedd. Dyma'r achosion cyntaf a gofnodwyd mewn gwiwerod coch gwyllt yng Nghymru (yn y 1990au nodwyd achosion mewn gwiwerod coch a ryddhawyd i'r gwyllt). Mewn ymateb, cynhaliodd Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru allgymorth sylweddol yn y cyfryngau a'r cyhoedd gan atal pob defnydd o borthwyr yn Ynys Môn a Gwynedd.

Mewn llawer o achosion cafwyd gwared â gorsafoedd bwydo gwiwerod o fannau cyhoeddus a gerddi. Cyhoeddwyd canllawiau clir ar sut i fonitro poblogaeth y wiwer goch, arwyddion y firws, a'r camau pwysig sydd eu hangen i atal lledaenu. Os oedd pobl yn dymuno parhau i fwydo, argymhellwyd bwydo gwasgaredig. Cofnodwyd cyfanswm o dri achos o frech y wiwer a gadarnhawyd.

©Mark Wilkinson

©Paul Harry Photography

Monitro gwiwerod mewn ardaloedd gwledig

Roedd y system rhybuddio cynnar sy'n monitro Kielder, Kidland ac Uswayford yn darparu gwybodaeth hynod ddefnyddiol a helpodd y tîm yn Ymddiriedolaeth Natur Northumberland i nodi coetiroedd lle'r oedd gwiwerod llwyd yn bresennol yn 2017. Roedd monitro rheolaidd gan ddefnyddio camerâu llwybr yn bodloni'r tîm bod coedwigoedd Kidland ac Uswayford yn parhau i fod yn rhydd o'r wiwer lwyd.

Fodd bynnag, yn nyffryn Coquetdale i'r de o'r ardal, gwelwyd wiwerod llwyd ar gamera. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Grŵp Gwiwerod Coch lleol yn Coquetdale, arweiniodd gwaith monitro a rheoli dilynol at ddal a symud 30 o wiwerod llwyd o amgylch Holystone a Harbottle. Roedd yr enghraifft hon yn darparu tystiolaeth wirioneddol mai canfod yn gynnar, ac ymateb cyflym yw'r allwedd i atal gwiwerod llwyd rhag cyrraedd prif goedwigoedd y wiwer goch. Yn yr un modd, mewn ardaloedd yng Ngogledd Cumbria, gwelwyd gwiwerod llwyd ar gamera mewn lleoliadau anghysbell lle y byddent fel arall heb eu canfod, gan alluogi Ymddiriedolaeth Natur Northumberland i ymateb yn unol â hynny. Profodd yn anodd cynnal ymatebion mor gyflym ym mhob ardal, yn enwedig yn rhai o'r lleoliadau camerâu mwyaf anghysbell. Mae annog perchnogaeth leol o gadwraeth y wiwer goch mewn ardaloedd lle mae ychydig iawn o bobl yn byw yn un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweddill y prosiect.

©Adam Seward

Ulster Wildlife

Cynyddodd ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon yn dda. Cofnododd arolwg monitro gwiwerod a belaod Gogledd Iwerddon ar gyfer 2017 y dwysedd uchaf o wiwerod coch yn Swydd Fermanagh, o'i gymharu ag ardaloedd arolwg eraill heb unrhyw wiwerod llwyd wedi'u cofnodi o gwbl. Cofnododd Swydd Co Fermanagh hefyd y dwysedd uchaf o'r bele goed a welwyd ar bron i hanner y safleoedd a arolygwyd yn yr ardal hon.

- Erbyn diwedd 2017, roedd Ulster Wildlife wedi cyflawni:
- 46 o ddigwyddiadau cysylltu â'r gymuned
- 28 digwyddiad mewn partneriaeth â thrydydd parti
- 33 o weithgareddau addysg
- 19 digwyddiad hyfforddi

Yn ogystal, cysylltodd Ulster Wildlife â dros 100 o dirfeddianwyr i'w cefnogi gyda rheoli'r wiwer lwyd a datblygu grwpiau cymunedol newydd yng Ngogledd Down, Rostrevor, West Tyrone a Cityside yn Londonderry. Ym mharth difa Mourne, canolbwyntiodd Ulster Wildlife ar fireinio'r system rhybuddio cynnar a gwyliadwriaeth gan ddefnyddio dau gylch o wirfoddolwyr yn monitro. Mae cylch allanol gwirfoddolwyr yn monitro porthwyr gyda thâp gludiog dwbl a thrapiau camera i nodi presenoldeb ac absenoldeb gwiwerod llwyd a choch. Mae'r cylch mewnol o wirfoddolwyr yn ceisio sicrhau bod unrhyw wiwerod llwyd yn cael eu riportio i Ulster Wildlife, sy'n ymateb mewn llai na 48 awr. Mae'r ardal hon hefyd yn cymryd rhan mewn rhaglen ddogfen o'r enw 'A Life In The Year Of The Mournes' a ddarlledir yn 2018.

©Ulster Wildlife

Cysylltiad cymunedol mewn ardaloedd trefol

Gall cyfranogiad gwirfoddolwyr a chysylltu â'r gymuned wneud gwahaniaeth enfawr i waith Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaerhirfryn. O'i gymharu ag ardaloedd eraill Gwiwerod Coch Unedig, mae Glannau Merswy yn dirwedd drefol iawn, gyda phoblogaeth ddynol fawr. Mae hyn yn darparu heriau gwahanol ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd a chadwraeth gwiwerod coch. Mae Gwiwerod Coch Unedig yn gweithio gyda chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth ac annog pobl i riportio gweld gwiwerod, helpu gyda monitro a chymryd rhan yn y cynllun benthyg trap trefol. Yn ystod 2017, cynhaliwyd 23 o ddigwyddiadau cymunedol gyda chymorth 16 o wirfoddolwyr. Roedd y rhain yn cynnwys teithiau cerdded tywysedig, sgyrsiau cymunedol, diwrnodau hwyl gwiwerod, monitro gwiwerod a hyfforddiant rheoli gwiwerod llwyd. Fe wnaeth hyn alluogi Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaerhirfryn i gysylltu â thua 750 o bobl, ac roedd bron i 400 ohonynt yn blant.

Mae'r rhaglen fonitro ddwywaith y flwyddyn, sy'n cael ei chwblhau bob gwanwyn a hydref gyda chymorth dros 30 o wirfoddolwyr, yn nodi bod poblogaeth y wiwer goch wedi aros yn sefydlog a bod y niferoedd wedi cynyddu hyd yn oed mewn rhai ardaloedd yn ystod 2017. Cymerodd 74 o gartrefi ran yn y cynllun benthyciadau trap trefol. Trwy gydol 2017 derbyniodd Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaerhirfryn wybodaeth am 398 o wiwerod coch a llwyd a welwyd gan aelodau o'r cyhoedd ledled parciau, gerddi a choetir. Roedd hyn yn darparu gwybodaeth hanfodol a ychwanegodd at y data monitro a rheoli gwiwerod llwyd i helpu i lywio strategaethau cadwraeth ymhellach.

Gweithio gyda chymunedau

- Yn 2017 parhaodd Forest Research i archwilio cymhellion ac agweddau at gadwraeth gwiwerod coch a rheoli gwiwerod llwyd. Cynhaliwyd hyn gyda gwirfoddolwyr ymgysylltiedig a rhanddeiliaid allweddol eraill yng Ngogledd Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a Glannau Merswy. Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar:
- dyheadau ar gyfer cadwraeth gwiwerod coch a heriau allweddol
- cymhellion i gymryd rhan yn y lle cyntaf ac i ddal ati
- rhwystrau a heriau a wynebir
- sut y gellid gwella'r profiad o wirfoddoli

Dangosodd tystiolaeth fod cymhelliant i wirfoddolwyr fel rheol yn troi o amgylch awydd i achub y wiwer goch sydd dan fygythiad, neu'r coed llydanddail y mae'r wiwer lwyd yn effeithio arnynt. Nododd llawer y pleser a gânt o weld neu dynnu llun o wiwerod coch, yn enwedig yn eu gerddi a'u coetir lleol. Mynegodd eraill awydd i wneud gwahaniaeth a chadw'r cyfle i weld gwiwerod coch ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ar wahân i'r ymdeimlad hwn o bwrpas, nododd gwirfoddolwyr fod eu rôl yn darparu cyfleoedd gwych i ffurfio cyfeillgarwch a'r cymhelliant i fynd allan i fwynhau'r awyr agored, gan wella eu lles yn y pen draw. Daeth amser annigonol a diffyg diddordeb gan y gymuned leol i'r amlwg fel heriau allweddol.

Yn ogystal, teimlai llawer o wirfoddolwyr fod dosbarthiad eang gwiwerod llwyd yn golygu bod angen dull cenedlaethol o reoli, a heb arweiniad gan y wlad mae pryderon y bydd gwiwerod llwyd yn syml yn dychwelyd i ardaloedd a reolir yn dda o'r ardaloedd lle nad oes digon o adnoddau. Roedd gwell cyfathrebu ac adborth gan sefydliadau cynnal ymhlith yr awgrymiadau mwyaf cyffredin ar gyfer gwella profiad gwirfoddolwyr.

Gweithio gyda gwyddoniaeth

Mae Prifysgol Newcastle yn monitro'r holl waith cadwraeth i Gwiwerod Coch Unedig, i alluogi dysgu o'n gweithredoedd a gwella arfer gorau. Trwy gydol 2017 gweithredwyd mecanweithiau casglu data ar draws y rhaglen a dechreuwyd casglu data o ddifrif. Mae hyn yn galluogi'r brifysgol i fapio dosbarthiad gwiwerod coch a llwyd, rhagweld y ffordd orau i amddiffyn y poblogaethau gwiwerod coch sy'n weddill ac i gynllunio rheolaeth poblogaethau gwiwerod coch yn y dyfodol. Gall achosion o glefydau ym mhoblogaethau'r wiwer goch fod yn ddinistriol. Mae dealltwriaeth bellach am firws brech y wiwer yn gofyn am astudio sut y gall rheoli poblogaethau gwiwerod llwyd amddiffyn gwiwerod coch rhag y clefyd. Bydd hyn yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2018.

©Adam Seward

Pwy yw Gwiwerod Coch Unedig?

Mae Gwiwerod Coch Unedig, a gydlynir gan yr Ymddiriedolaethau Natur, yn bartneriaeth o sefydliadau o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys Ymddiriedolaethau Natur, Ymddiriedolaeth Natur Northumberland, Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaerhirfryn, Manceinion a Gogledd Glannau Merswy, Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, Ymddiriedolaeth De a Gorllewin Cymru, Ulster Wildlife, Prifysgol Newcastle a Forest Research.

Gyda phwy rydym ni'n gweithio?

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â nifer o grwpiau a sefydliadau cymunedol gan gynnwys perchnogion tir, rheolwyr stadau, ffermwyr a gwirfoddolwyr. Rydym yn cynnal ffair wybodaeth flynyddol lle gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn helpu gwiwerod coch a rheoli nifer y gwiwerod llwyd gwrdd i rannu syniadau.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Saving Scotland's Red Squirrels i sicrhau bod dull cydgysylltiedig o gadwraeth gwiwerod coch yn cael ei ddefnyddio ledled y DU.

Sut i gymryd rhan

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli neu os hoffech ddysgu mwy am feysydd y prosiect, cysylltwch â'r sefydliadau partner canlynol:

The Wildlife Trusts
rsu@wildlifetrusts.org

Northumberland Wildlife Trust
red.squirrels@northwt.org.uk

The Wildlife Trust for Lancashire, Manchester and North Merseyside
red.squirrel@lancswt.org.uk

Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru
angleseysquirrels@hotmail.co.uk

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
info@welshwildlife.org

Ulster Wildlife
redsquirrels@ulsterwildlife.org

©Pixabay

Cynhyrchwyd fel rhan o brosiect Gwiwerod Coch Unedig gan:
Red Squirrels United, The Wildlife Trusts, The Kiln, Waterside, Mather Road, Newark, Nottinghamshire, NG24 1WT
Rhif Elusen Gofrestredig 207238
LIFE14 NAT/UK/000467
www.redsquirrelsunited.org.uk
rsu@wildlifetrusts.org

Gwiwerod Coch UNEDIG Red Squirrels UNITED

Life

heritage treftadaeth
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Dilynwch ni ar Facebook, Twitter ac YouTube i gael diweddariadau rheolaidd
@RedSquirrelsUtd
Mae gennym hefyd gylchlythyr e-bost y gallwch lofnodi ar ei gyfer:
www.redsquirrelsunited.org.uk/newsletter